# POLISI DEFNYDDIO FFONAU SYMUDOL YSGOL EIFIONYDD: DISGYBLION

**Amcanion**

Yn unol â dyletswyddau'r ysgol a'n cyfrifoldeb i sicrhau trefn ac addysg o ansawdd, ers **1 Medi, 2021**. Ni chaniateir i ddisgyblion ddod â ffôn symudol i safle'r ysgol (gan gynnwys y tiroedd ac adeiladau), oni bai fod eithriad wedi'i gymeradwyo o dan amgylchiadau penodol.
Mae'r gwaharddiad hwn yn berthnasol i bob math o ddyfeisiau cysylltiedig, gan gynnwys clustffonau diwifr megis *AirPods* ac unrhyw ddyfais sy'n galluogi recordio neu gyfathrebu digidol.

**Camau Gweithredu**

**1.1.** Os gwelir neu glywir ffôn symudol ar safle'r ysgol, **disgwylir i'r disgybl drosglwyddo'r ddyfais i aelod o staff ar unwaith**. Caiff y ddyfais ei storio'n ddiogel yn y Brif Swyddfa, gyda chofnod ffurfiol o enw'r disgybl a dyddiad yr achos.
**1.2. Os bydd disgybl yn methu â throsglwyddo'r ffôn i aelod o staff, bydd hyn yn arwain at un cyfnod mewn 'detention' amser cinio.**
**1.3. Os bydd y disgybl yn parhau i wrthod cydymffurfio ar ôl y cam cychwynnol, bydd hyn yn arwain at aros ar ôl ysgol.**
**1.4. Os na fydd y disgybl yn cydymffurfio gyda cham 1.3.**, hynny yw, gwrthod rhoi'r ffôn yn y Brif Swyddfa ac gwrthod pob cosb**, bydd hyn arwain at: waharddiad allanol o hyd at un diwrnod.**
**1.5.** Dychwelir y ddyfais i'r disgybl o'r Brif Swyddfa am **3.20yp**.
**1.6.** Os bydd y disgybl yn **parhau i wrthod cydymffurfio â'r polisi**, gweithredir camau yn unol â threfn fugeiliol yr ysgol: *Y Ffordd Ymlaen*.
**1.7.** Gellir defnyddio'r ffôn ysgol yn y Brif Swyddfa i gysylltu â'r cartref **yn ystod egwyl, cinio, ar ddiwedd y diwrnod**, neu **ar unwaith os oes argyfwng**.
**1.8. Nid yw'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb** am unrhyw ffôn a gollir neu a ddifrodwyd ar safle'r ysgol.

**Eithriadau**
Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y caniateir i ddisgybl ddod â ffôn symudol i'r ysgol:

1. **Diogelwch a threfniadaeth teithio**
   - **Taith addysgol neu weithgareddau oddi ar y safle** sy'n gofyn am ffôn at ddibenion diogelwch neu gyfathrebu, yn ôl cyfarwyddiadau'r staff.
   - **Addysgu oddi ar y safle** (e.e. Ysgol Glan y Môr, Coleg Meirion-Dwyfor) lle bo ffôn yn angenrheidiol ar gyfer teithio diogel. **Diogelwch a threfniadaeth teithio**
2. **Defnydd dysgu penodol**
   - Pan fo **natur gwers neu dasg** yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio dyfais bersonol, gyda chaniatâd ymlaen llaw gan yr athro.
3. **Eithriadau unigol am resymau lles, iechyd neu ADY**
   - **Caniatâd dros dro** gan Bennaeth Blwyddyn neu aelod o'r Tîm Rheoli, e.e. oherwydd salwch difrifol yn y teulu.
   - **Caniatâd parhaol** gan gydlynydd ADY neu aelod o'r Tîm Rheoli, e.e. ar gyfer monitro cyflwr meddygol neu gynorthwyo trefnu/cofio.
   - **Eithriad unigol** am resymau diogelwch, lles neu anghenion dysgu ychwanegol.

**Pan fo eithriad yn berthnasol, rhaid i'r ffôn fod wedi'i ddiffodd ac wedi'i gadw'n ddiogel ac allan o'r golwg ar bob adeg tra bo'r disgybl ar safle'r ysgol.**

**Camddefnyddio Ffonau Symudol**

***Yr Ochr Gyfreithiol –***

*O dan Adran 1 o'r Ddeddf Cyfathrebu'n Faleisus 1988, mae'n dor-cyfraith anfon neges amheus, anweddus neu fygythiol i unrhyw berson, boed yn llythyr ysgrifenedig neu'n electroneg. Yn yr un modd mae'n anghyfreithlon anfon neges o'r fath ar y ffôn hefyd. Y gosb am dor-cyfraith o'r math hwn yw uchafswm o 6 mis o garchar, a/neu ddirwy hyd at £5000. Ymhellach, os bydd y neges yn awgrymu y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn erbyn y diffynnydd, gall y gosb fod hyd at 5 mlynedd o garchar. Os bydd y neges yn hiliol gall y gosb fod hyd at 7 mlynedd.*

**Mae unrhyw achosion o fwlio seibir yn cael eu cyfeirio at yr Heddlu. Ni chaniateir i ddisgyblion dynnu lluniau, creu delweddau na fideos, nac unrhyw fath o ffilmio o ddisgyblion eraill neu aelodau o staff ar unrhyw ddyfais, gan gynnwys ffonau symudol.**